

Thyndyrbyrds
(20240403)



Byd awyrlu diwahân - â'u awch uwch,
Awch achub rhag aflan;
Rhai dewr, Adar Y Daran
Yn gwibio i gyffro'r gân.

(D. yn darganfod byd newydd!)

INRI
(20240329-0401)



Teimlaf gynt mab Maria - mewn poen,
Wylaf oen a'i fana;
Cofiaf derfyn dynyn da,
Ofereidd ei Galfaria.

Dagrau salwch ei groeshoeliad - gwywo
A gwawrio ei gariad
Fel euren heulwen rhyddhad;
Daw nawdd ei adnewyddiad?

Teirnos ac aros mae'r hiraeth - a ddaw
Maddeuant o'i artaeth
Try'n ddeillion cyffion y caeth,
O'i alar, buddugoliaeth?

Fel iro'r cofio cyfoes,
Tynu'r gau o greithiau'r groes;
A rhwym dros archolliau'r hoel
Gŵys ei neges anhygoel.

(Y Pasg.)

Cyfrifoldeb
(20240327)

Nid eli dy dawelwch gwan yn ngŵydd drygioni. Duw sy'n deall.
Pwy 'di dyn sy'n peidio dweud?
Tila gnaf sy'n atal gwneud.

(Arall-eiriad o sylw Bonhoeffer.)

Deall
(20240325)

Esgyn i uwch addysgiant - yng ngolud
Angylaidd eidduniant
Fy hiraeth, fy chwaeth am chwant:
Gwên anfeidrol ogoniant.

(Darllen hanes Victor Frankl, yn son bod angylion ar goll mewn cyflwr parhaol o ystyried anfeidrol ogoniant. "The angels are lost in perpetual contemplation of an infinite glory")

SulYBlodau
(20240324)



Oedi ar Sul y Blodau - af â chân,
Caf chwynu cyfrolau
Cof crwydr brwydr bywydau brau
A nodi tranc eneidiau.

Neithiwr
(20240322)

Anel uwch gwerinol awr - calon tôn,
Clun Tanat a distaw
Rodd yr ardal ar alaw'r
Hen fyd yn Mhen-y-bont Fawr.

(Côr Rh yn cynnal noson neithiwr.)

Troedigaeth
(20240321)

Trodd hyder camre'r Cymry'n nawdd rhyfedd
I'r ifainc a'u cynllun
Tân o dalent yn dilyn:
Nodi'r wefr mae'r pedair un!

(Cymru'n maeddu'r Ffindir yn rownd cynderfynol gemau ailgyfle'r Ewros.)

Gwirionedd
(20240320)

Hurtrwydd yw cryd ein byd di-ball - ein tranc,
Ei ddianc heb ddeall
Mai mab Mair yw'n gair i gall
A'n her, byw serch un arall.

(Darllen mwy am Gristnogaeth digrefydd Bonhoeffer.)

Gwanwyn!
(20240318)

Llyncad byw hen lyw a'i les - llif o faeth
Anogaeth y neges
Geinaf, blas y wawr gynes:
Gwenau'r haul a gwin ei wres.

(Bore hyfryd!)

Drakeford
(20240316)

Gwladgarwr, clir ei fwriad - mwyn ei farn,
Ond cadarn bu'n ceidwad;
Pur ei lafur dros ei wlad,
Un drud bu Rhyd-yr-adiad.

(Cyfnod Rhyd-yr-adiad ar ddod i ben.)

YGrog
(20240316)

Yn y gwyll, cof a gollwyd - yn y gwyll,
Cof erchyll cyfarchwyd
Fel galar stori arswyd
Oerni'r claf ar enau'r Clwyd.

(O rywle'n cael atgof o weld dyn wedi ei grogi blynyddoedd mawr yn ol ar lan y Clwyd ger Scott House.)

PrifWeinidog
(20240316)

Calfaria! Mae Gwalia mewn gwing - boi mwyn
Bu Miles ym mhob *husting*;
Wedi'r rês, trodd ias yn ing!
Gwaeth yw odli â Gething!!!!

(Arweinydd newydd i'r Blaid Lafur, a phrif weinidog newydd i Gymru.)

OMiaBabinaCaro
(20240316)



Pori byd opera byw - gosgeiddig,
Mwyn orig aniryw;
Ymgyffred clired i'r clyw
Nawf yno'n sain y Venue.

Esgus cael cyw iâr mewn basged yn siwr
A siarad dros baned
Sydd draw drwy'r gwllaw o glywed
Alaw hoff y gân ar led.


(Yn Llandudno'n noson o'r opera gyda J, R a E.)

Siwrnai
(20240315)

Ar y slei y dei o'r De - rho awren
I'r hiraeth fel pader;
Enyd gwiw er newid gêr,
Cei oedi ym Mhencader.

(Gorffen gwaith yn gynar, a gyru adref i Rh yn y car bach coch o Gwm Tawe drwy Gaerfyrddin a'r Cei Newydd.)

Tre'rDderwen!
(20240315)



Tref fyw yw llyw'r gollewin - diogel,
Tref dawel y dewin;
Tref geinaf, mwynaf ei min,
Caraf urddas Caerfyrddin.

(Yng Nghaerfyrddin 'ddoe, a'r stryd fawr yn mynd ar ei gwaethaf.)

Dyddodiad
(20240314)

Perseiniau symffoni di-daw - allan
Â'r pyllau yn ganllaw;
Eli diferiol alaw,
Cân y tir yn glir drwy'r gwllaw.

(Lawr yn GG, gwllaw, gwllaw a gwllaw.)

YTawe
(20240312)



Efail wyllt, a'i ffrydiau'n floedd - tori'n rhydd
Drwy'r nudd o'r mynyddoedd
Ar rhed i'r gored, ar goedd,
Nodau hyfryd y dyfroedd.

(Yn GG, gwlaw mawr, a mynd i redeg ar hyd lan yr afon a'r tipiau.)

NosWener
(20240310)

Unos, cytgan a anwyd - a chyffro
I'w gofio a gafwyd;
Nefolion noson o nwyd:
Cael rhanu hynt claer Nantclwyd.

(Côr Rhuthun a Chôr Nantclwyd ar y cyd nos Wener.)

DrosYrEnfys
(20240308)



Sarn drwy ystormus hwyrnos - lôn felen
Nefolaidd â'i hungos;
Aed i lygad y logos,
Odyn wyrth y Dewin Os.

(Mynd gydag E, H, J, K a T i weld y *Wizard of Oz* yn Llandudno, a darllen hanes Frank Baum wedyn.)

Seiriol
(20240306)



Pen twyn, un p'hawn gwanwynol am eli
A miri cwr morol;
Sylwaf ar Ynys Seiriol
A'i osgeiddig, unig ol.

(Oifad yn y môr ger Traeth Bychan.)

CraigAdwyWynt
(20240306)



Gwawrddydd ar ben mynydd mwyn - dyn a Duw
Yn dawel, yn gyswyn;
Egin gwiw o liw ar lwyn
A naws gyne y gwanwyn.

(Rhedeg i Graig Adwy Wynt am y tro cyntaf eleni.)

Fflint
(20240303)

Aberig, eglwysig ei glem - ar dwyn
Ger y don, diadem;
Drych ar arfordirol drem:
Cerais olwg Caersalem.

(Cynal oedfa yn y Fflint.)

YnYParc
(2024028)

Elán cael rhanu'r uned - dagrau hyf
Digrifwch i'w clywed;
Nef esgyn gyda'r faged:
Arlwy hardd chwerthin ar led.

(Cyda D. yn y parc yn Rhuthun dydd Sadwrn.)

YChwyrnwrChwaethus
(20240225)

Cantor dewraf, dal d'afel - gwae pob cad
Â'r rhai mad yn 'madel;
Paid darfod, hoff aelod ffel;
Heb os, rhaid aros, Arwel.

(A. yn amau am y canu.)

CarNewydd?
(20240217-23)

Ar y ffordd, rhaid cadw'r ffydd - nid amau
Cydymaith mor ufudd;
Er y daw, nid heddiw'r dydd,
Gwaedda "Na!" i gar newydd!

Gwir lyw, ffrind dryw drwy pob tro â'n dyner,
Â'i danio'n diflino;
Mynd, am fynd, mae'r hen Fondeo!
Rhaid caru ei yru o!

(Meddwl am newid y car, ond ar y cyfan nid oes pwrpas, â'r hen Fondeo'n mynd gystal.)

YnYCoch
(20240216)

Oferedd ffars difwriad yw duwdod
Ceidwadaeth ddisyniad;
Siwrnai gyfoes loes y wlad
O rwysgedd i ddirwasgiad.

(Y Torïaid yn colli dau etholiad achlysurol 'ddoe.)

Ffolant!
(20240214)


Cenad â chariad ai chwant? Ai sen awch
Masnachol ei lwyddiant,
Neu cof parchus, serchus sant?
Ai cŵl neu ffŵl oedd Ffolant?

MyndAiDod?
(20240128-20240211)

Awn yn enw'n dwy hunaniaeth - dwy iaith,
Dwy hil, dwy dreftadaeth;
O'n gwiraf bau, ffrindiau ffraeth,
Awn i riniau'r weriniaeth.



Lletygar ar ei oera' - yn yr rhew
Fel yr haul mae'n noddfa;
Dinas wen dan haenen iâ,
Pur ei hawydd yw Praha.



Hyfryd bu'r cornel cyfrin o luniau
Kulhánek, y dewin
Siwr ei law a phiwr ei lin,
Â steil i brocio Stalin.



Chwant bun saif rhwng dyn a Duw - elor cnaf
Galw'r cnawd, daw ernityw
O ddewis strydoedd distryw,
Nwyf *La Ronde* a gafael rhyw.



Heb un os, mae'n *Virtuoso* - dewin
Mochyn Daear eto'n
Chwarae'n cŵl fel ffŵl ar ffo,
Yn ben ar hen biano!



Neges am ryfedd heddwch rhydd awel
Ar ddianc y dryswch:
Coed, a dail dan droed yn drwch,
Daw eli gwir dawelwch.



Seintwar ger caeau arian - cynghanedd
Dysg rhyfedd crud Skřivaň;
Englyn hud byd y boda'n
Hwyllo hynt y gwynt a'i gân.



Tirion wedd y tri yn un - annatod
Byd natur yn gymun;
Da ganllaw gwawr Dy gynllun,
Bore angall deall dyn.



Digrwn, er waetha'i dagrau yw gwiwell
Ar draethell, hydr hithau;
Bodlongar ar ddifa'r ddau
Bo lêdi'n prynu blodau.



Deffro drud y ffrwydradau - anobaith
Sŵn gweniaith y gynau;
Trallod anwybod yn hau
Bwledi lle bu blodau.



Am y drws, mi ei am dro fel cyffur
Â'r awyr yn rhuo;
Clywi hynt y gwynt o'i go',
Clywi'r deri'n ymdaro.



Ei ras yw sail ei drysor - ei ras aur
Dros aradr a thractor,
A gweddi ei egwyddor:
Cymar Daear Isidor.



Yn barod wyf, un bore da - daw'r awch,
Ymdrochaf i'r hindda!
Â chyffur o blu'r mwyn bla
Yw erwau oer yr eira.



Diawl rhydd fawl i hafaliad - am mai dwl
Modeli gwyrrth cread;
Berwch am weld y bwriad,
Golau rhin gwir eglurhad!



Ei gwydd, ei hurtrwydd ei hun - byw i'r oes
Heb reswm na chynllun;
Deall dim sy'n dallu dyn
A chawl y diawl sy'n dilyn.



Hap-bris hirdaith iselder - eu hangen
Yn angof, a'u hwyneb;
Rwyn falch cael cyfarch cofeb
I'r cu na adnabu neb.



Cwr gwledig ger coedwig gudd - bro unig
Rhwng bryniau a dolydd;
Nef, daear a noddfa'r nudd:
Da troedio tir ehedydd.



Awn yn enw'n dwy hunaniaeth - dwy iaith,
Dwy hil, dwy dreftadaeth;
I'n gwiraf bau, ffrindiau ffraeth,
Awn o riniau'r weriniaeth.

(1. Hedfan yn hwylus dros ben 'nol i Praha. 2. Cerdded yn y rhew. 3. Mynd i arddangosfa Oldřich Kulháněk. 4. Mynd i'r theatr i weld "Rej" (neu "La Ronde" yn Ffrangeg, "Reigen" yn yr Almaeneg) o waith Arthur Schnitzler, drama a frawychodd bobl parchus Fiena ar ddechrau' ganrif ddiwethaf. 5. Arddangosfa Michael Rittsteiner; enw'r darlun yw "Virtuoso". 6. Cyraedd Skřiváň; nefoedd. 7. Mynd am dro a boda'n galw uwch fy mhen. 8. Rhedeg cyn cwrdd, a'r tri yn dod i'm cwrdd! 9. Gwrando ar Miley Cyrus yn canu "Flowers" cyn mynd i redeg! 10. Meddwl am Iwcrain; y linell olaf o'r benill cynt. 11. Mynd am wâc yn y gwynt, a chlywed "deri'n ymdaraw" reitiwala!! 12. Rhedeg heibio i gerflun o Isidor, nawddsant amaethwyr. 13. Eira neithiwr! 14. Mynd i redeg i Všetaty. 15/16. Rhedeg na strom. 17. Skřiváň yw'r gair Tsieceg am ehedydd, an enw'r pentref. 18. Mynd/dod adref.)

AnimalFarm (20240124)



Ar fyrder bo rhaid derbyn yn nefyn
Anifail a blodyn
Mai nid cymar Daear Dyn:
'Wir, fe'i elwir yn elyn.

(Ail-ddarllen "Animal Farm" gan Orwell ar ôl gwyllo'r ffilm wych "Mr Jones", am Gareth Jones o'r Bari yn mynd i'r Wcrain yn y 1930au a phrofi erchylllder yr "holodomor", sef y newyn a achoswyd gan Stalin er mwyn cynnal economi Rwsia. Yn "Animal Farm", mae breuddwyd yr hen fochyn, "Old Major", yn amlygu iddo mai'r ffordd i wella bywyd i bawb yw cael gwared â Dyn.)

YGY
(20240122)

Natur menter rhamantus i fyddau
Cyfoedion, cof melus
Tarian a llwyfan a llys:
Naws archif acen serchus.

(Cael ebost wrth hen ffrind ysgol.)

GolauArall
(20240121)



Nos gwiw a'i liw dros y wlad - lliw y sarn,
Llusernau gwareiddiad;
A lliw sêr, lloer yw'm lleshad;
Lliw lau, tai'r cwm a'r lleuad.

(Yn GG yr wythnos diwethaf, wedi rhewi'n galed, ac awyr y nos yn fendigedig.)

Cinio
(20240117)

Ynysig, cynig hynod - geiriau mil,
Grym heulog gyfarfod;
Huw a Dei a Ger yn dod
I Drehwfa i drafod!

(Cinio ar yr ynys gyda D, G a H.)

Gweld
(20240115)

Doethur difyr a dyfa i fyw'n gall,
Heb wall, i bawb wella;
Rhinwedd oes yw siwrnai dda
A rhosyn pur sy'n para.

UnBore
(20240115)

Codi ar fore cydair - rhyfeddod
Cawod newid cywair;
Yn gynar gwyn ar y gwair
Arian gysur o gesair.

(Rhewi neithiwr, a ffluwchad o gesair dros y lle.)

MynyddTân
(2024013)

Byw dwrw berw beirian - côl ystod
Peiroclastig igian;
Pwysedd wylofedd lafa'n
Hyrddio'i reg drwy'r gareg wan.

SesiwnPoster
(20240112)

I greu y nawws o gaws a gwin - casglwyd
A magwyd chwim egin
Ac ystyriwyd gwe STOR-i'n
Ehangu i ranu'r rin.

(Mynd i gynhadledd STOR-i yng Nghaerhirfryn.)

Tybed?
(20240106)

Israddol ein seryddiaeth - gwyddon, ffydd,
Nudd ein hathroniaeth;
Mae mwy, *Amwamwâ*,
I'r sylw na welwn, wa!

(Gwrando ar gân Angel Hotel, a darllen am *Amwamwâ*.)

CwmTawe
(20240105)



Ym miri henfro miaren - daw eli
Ar dyle eithinen,
A choflaid enaid y De'n
Y dŵr ar lethrau'r Daren.

(“Rhedeg” i ben mynydd.)

LlynYFan
(20240104)



Anwyl le i'm golchi'n lân - tir uwch trecs
Y Twrch Trwyth yn clebran
A chwarae dwrach arian
Tonog ael y Tawe'n gân.

(Mewn gair, nefoedd.)

Glaw
(20240203)

Calenig anelwig nen - glawiog lyw
Dilyw'r troi tudalen;
Fe anwylaf y niwlen,
Fy nh'wysog a'i lwydog len.

(Arllwys y glaw o hyd.)

TirNewydd
(20240102)



Dilyn llwybrau ei herwau âr - cyffro
Rhodio'ng nghanu'r adar;
Mwynhau ei chaeau a châr,
Bywhau pau dauddeg pedwar.

2024
(20240101)



Gwanhau mae ffaglau'r ffuglen - naws olaf
Noswyllo try'n fore'n
Awr; gerllaw, agorir llen,
Datguddir eli'r heulwen.

(Rialtwch neithiwr wedi dod i ben, ond y bore 'ma yn wych i'w weld.)